
Y JIRÁFF NA ALLAI DDAWNSIO




Giles Andreae


Guy Parker-Rees



Jiráff mawr tal oedd Gerallt
Â gwddwg hir a main,
A phedair coes esgyrnog
Fel coesau bwgan brain.




Doedd neb fel Ger am sefyll
I fwyta dail o'r coed;




Ond, O! pan geisiai redeg,

Ef oedd y gwaetha 'rioed!




Bob blwyddyn yn y Jyngl
Mae pawb yn cael eu siawns
I jeifio a chwyrlïo
Ar ddiwrnod mawr y Ddawns.
DAWNS Y JYNGL
Eleni, unwaith eto
Roedd Ger yn ddistaw iawn,
Oherwydd ym myd dawnsio
Doedd ganddo ef ddim dawn.


Y walts oedd dawns y baeddod,
A'r rhino roc a rôl;
Y tango ddawnsiai'r llewod,
Ymlaen – ac yna'n ôl.



Mae'r tsimp yn hoffi'r tsa-tsa,
Mae'n ddawns deimladwy iawn;





Ond gan fabŵns byrlymus,



Dawns werin wyllt a gawn.







Fe lyncodd Ger ei boeri
A throedio tua'r llawr,
Ond pan oedd ar fin mentro
Daeth sŵn hen chwerthin mawr.

'Hei, gwelwch Gerallt drwsgl
A'i faglau bwgan brain!
Mae'n hurt i feddwl dawnsio
Ar goesau matsys main!'

Fe rewodd Gerallt yno,
Ni fedrai symud troed.
'Y maen nhw'n iawn,' meddyliodd.
'A fu'r fath ffŵl erioed?'







Fe gefnodd ar y miri
A throi i ffwrdd yn fud;
Ni fu erioed mor unig,
Heb gyfaill yn y byd.


Cyrhaeddodd lannerch bychan
Ac edrych fry i'r nen.
Ochneidiodd wrtho'i hunan,
'Mor dlos yw'r lleuad wen.'
Criciedyn bach besychodd,
'Ym … esgusoda fi,
Os wyt ti yn wahanol —
Myn gân i'th siwtio di.'



‘Gwrandawa gân yr awel
A’r rhythm yn y dail.
Cerddoriaeth o fyd natur
I mi, sydd heb ei ail.’
‘Dychmyga fod y lleuad
Yn canu’i chân i ti.
Gall popeth ganu’n swynol
Yn ein calonnau ni.’




Fe wenodd y criciedyn
Gan daro alaw gain,
A theimlodd Gerallt gyffro
Wrth ganfod gwefr y sain.





Dechreuodd carnau Gerallt
Greu patrwm ar y tir;
Symudai'i wddf a'i gynffon
I dempo'r nodau clir.











Fe daflodd goesau meinion
I fyny ac i lawr,
Ac yna neidiodd din-dros-ben —
A'i synnu'i hun yn fawr!


Fe deimlai yn anhygoel.
'Rwy'n dawnsio!' oedd ei lef.
'Rwy'n dawnsio, wir, rwy'n dawnsio!
MAE'N WYRTHIOL!' bloeddiodd ef.


Yr anifeiliaid eraill
A syllodd arno'n syn
Yn gwneud y bwgi-wgi
Mor slic a chŵl â hyn.
Fe waeddon nhw, 'Anhygoel!
Sut gall hyn fod yn wir?
Waw! Ti yw'r dawnsiwr gorau
A welsom yn y tir!'


'O, Gerallt, dywed wrthym,
Ble gest ti'r ffasiwn ddawn?'
Ei ateb oedd ymgrymu
Mewn modd gosgeiddig iawn.


Edrychodd tua'r awyr
A'i rhyfeddodau hi.
'Fe ddawnsiwn oll yn reddfol
I'r gân a garwn ni.'

Y Jiraff Na Allai Ddawnsio

Ewch ati i ddisgrifio'r stori gan ddefnyddio rhai o'r eirfa isod.

tal

bwgan brain

bwgi-wgi



dawnsiwr gorau

y tango

mawr

anhygoel

roc a rôl

dawnsio

Mynydd stori Y Jiraff Na Allai Ddawnsio


Dyddiad: WD 09/03/2020 Maes: I, M, D, G&TH, I&Ll, CM Cymorth: hg, ca, allog

Sgil: Trefnu darn o ysgrifennu gyda dechrau, canol a diwedd

Nod: I ail-ysgrifennu'r prif ddigwyddiadau'r stori.

Canol

Dechrau



Diwedd